YSGOL BRYNREFAIL

GWASANAETH CAROLAU
EGLWYS PADARN

Ar nos Lun 13eg Rhagfyr 2010 fe gynhalwyd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Padarn , Llanberis a'r eglwys dan ei sang gyda rhieni a ffrindiau. O dan drefniant Mrs Anwen Edwards a Mrs Lowri Roberts fu doniau disgyblion Ysgol Brynrefail yn disgleirio, yn unigolion, yn ddeuawdau, yn gorau, yn offerynwyr ac yn gerddorfa a'r oll yn cyfrannu tuag at greu naws unigryw'r Nadolig.

Bu casgliad yn ystod y gwasanaeth a'r holl arian a gasglwyd eleni yn mynd i'r elusen ' Hosbis yn y Cartref, Gwynedd' sydd yn darparu gwasanaeth ychwanegol, at y rhai sy'n barod yn y gymuned, ar gyfer cleifion sy'n dioddef o ganser neu unrhyw salwch sy'n bygwth ar fywyd. Eu hamcanion yw darparu awyrgylch gartrefol a chyfeillgar ar gyfer cleifion ac y mae codi arian yn hanfodol er mwyn cynnal eu gwasanaethau. Diolch i bawb a gefnogodd y gwasanaeth a'r casgliad